Y Ffoaduriaid

Cysyniadau: **Meddwl am eraill, dangos parch.**

Amcan: **Dod i ddeall pam mae pobl yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi.**

Cyfarpar: **Cynllunio set deledu syml. Dau fwrdd a chadeiriau ac enw'r rhaglen yn y cefndir. Cerddoriaeth agoriadol.**

Cyflwyniad:

● Holi'r plant oes rhai ohonyn nhw wedi symud tŷ yn ddiweddar. Oedden nhw'n teimlo'n hapus? Beth maen nhw'n golli o'u hen gartref? Ydyn nhw wedi colli ffrindiau?

● Bydd angen paratoi'r plant ar gyfer y ddwy olygfa. Yn y stiwdio deledu mae dau deulu yn paratoi i ddarlledu rhaglen o'r enw 'Symud ymlaen'. Teulu Mrs Taylor Jones a'i mab Jack, a theulu Mrs Roma a'i merch Mareia.

● Chwarae'r miwsig agoriadol.

Y Cyflwynydd:
Croeso i chi i raglen newydd sbon – Symud Ymlaen. Rhaglen ydi hon am dai. Sut i fynd ati i brynu tŷ newydd a gwneud hynny mewn cyn lleied o amser â phosib. Mi wnawn ni ddechrau heddiw efo Mrs Taylor Jones a'i mab Jack. Maen nhw'n symud o Stryd y Berllan i dŷ newydd yn Rhodfa'r Coleg. Mrs Taylor Jones, pam oeddech chi eisio symud tŷ?

Mrs Taylor Jones:
Wel, a dweud y gwir, mi oeddwn i'n chwilio am dŷ mwy er mwyn i Jack fy mab a Ruth fy merch gael ystafell iddyn nhw eu hunain. Ac mae 'na

ystafell haul (huanell) yno ac mae'r gŵr eisio garej ddwbl i'r 4x4. Ac wedyn mi ydw innau isio cegin ...

Y Cyflwynydd: (yn torri ar draws) Ond ...

Mrs Taylor Jones: (yn mynd yn ei blaen)
... ac mae'n rhaid i mi gael oergell a rhewgell yn un a digonedd o le. Pan oedden ni yn Stryd y Berllan ychydig iawn o le oedd yn y gegin. Mi fydd yn chwith gynnon ni adael ond mae hyn er gwell i bawb.

Y Cyflwynydd:
Diolch Mrs Taylor Jones, a beth am Jack? Ydych chi'n edrych ymlaen i symud tŷ?

Jack:
Trist iawn a dweud y gwir. Mi fydda i'n colli fy ffrindiau a dwi'n malio dim am y gegin newydd ...

Mrs Taylor Jones: (yn torri ar ei draws)
Jack, dyna ddigon. Mi wyt ti'n ddigon parod i fwyta'r bwyd.

Cyflwynydd:
Wel, mae Mrs Taylor Jones yn edrych ymlaen i symud i'w thŷ newydd ond dydi Jack ddim mor sicr.

Ond does gan rai teuluoedd ddim dewis o gwbl. Dyma droi yn awr at hanes Mrs Roma a'i merch Mareia. Maen nhw wedi cael eu gorfodi i symud o Syria yn ystod y rhyfeloedd yno. Dwy flynedd yn ôl ymosododd milwyr ar gartref Mrs Roma. Saethwyd ei gŵr yn farw a dau o feibion. Llwyddodd Mrs Roma a'i merch Mareia i ddianc a bu'r ddwy yn ddigon ffodus i ddod mewn cwch drosodd i Ewrop ac i Calais. Mi aeth ein gohebydd ni draw i Calais i gael sgwrs efo Mrs Roma a'i merch Mareia. Mi ddechreuodd trwy ofyn i Mrs Roma sut daith oedd hi yn y cwch drosodd i Ewrop.

Mrs Roma:
Ofnadwy. Roedd dros gant o bobl a phlant yn y cwch ac mi oedd hi'n stormus iawn ar brydiau. Maen nhw'n dweud bod dau o blant wedi boddi ond mi wnaeth Mareia a minnau gyrraedd y tir yn ddiogel. Ac wedyn rydyn ni wedi bod yn byw efo ffoaduriaid eraill yn Calais.

Gohebydd:
Fedrwch chi ddweud wrthym ni beth oeddech chi'n wneud o ddydd i ddydd?

Mrs Roma:
Chwilio am fwyd oedd y peth pwysicaf. Roedden ni'n gorfod ciwio am oriau a dim ond ychydig bach o ffrwythau, bara a dŵr oedden ni'n gael ar y dechrau. Roedd hi'n anodd iawn cysgu yno gan fod pawb yn crwydro o gwmpas. Sŵn mawr bob nos. Dim ond awr neu ddwy o gwsg oedden ni'n gael.

Gohebydd:
Mareia, oeddech chi'n medru cysgu?

Mareia:
Dim llawer. Roedd plant yn crwydro ar hyd y lle drwy'r nos. Ac mi oedd y wardeiniaid yn gas efo ni. Ac mi oedd y lle yn fwd i gyd, ac yn oer, yn enwedig pan oedd hi'n bwrw glaw.

Mrs Roma: (yn torri ar draws)
Mi fuasai Mareia a minnau wrth ein bodd cael tŷ bychan, bach, dim ond un ystafell efo to uwch ein pennau. Ond dyna fo – yma y byddwn mae'n debyg.

Gohebydd:
Ac yn ôl â ni i'r stiwdio.

Trafodaeth bellach:

- Trafodwch y prif wahaniaethau rhwng y ddau deulu.

- Efo pa deulu fuasech chi'n hoffi bod? Pam?

Emyn: Pan fo angen cymydog: Canu Clod 330

Dyfyniad o'r Beibl:

"Felly" meddai Iesu, "yn dy farn di, pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn wnaeth y lladron ymosod arno?"
Dyma'r arbenigwr yn y Gyfraith yn ateb, "Yr un wnaeth ei helpu."

Luc 10:36-37 beibl.net

Munud i feddwl:

Cymydog da ydi'r hwn sy'n dod i mewn pan fo pawb arall yn mynd allan.

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, wnei di ein helpu ni i fod yn gymdogion da i bawb, yn arbennig y rhai sydd heb ddim, fel y ffoaduriaid? Gwna ni yn gymdogion da. Amen.